# TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD Y PENDERFYNIAD** | 25 Tachwedd 2024 |
| **DYDDIAD CYHOEDDI'R PENDERFYNIAD** | 4 Rhagfyr 2024 |
| **DYDDIAD Y BYDD Y PENDERFYNIAD YN DOD I RYM** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25.1 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd. | 11 Rhagfyr 2024 |

**ENW A THEITL YR AELOD CABINET**

Y Cynghorydd Nia Jeffreys
Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Economi

**PWNC** Ymrwymo arian o gyllideb 'Lluosi' Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG

**PENDERFYNIAD –**

1. Ymrwymo £35,225 yn ychwanegol i'r cynllun Helpu Pobl Gwynedd Gyflawni Potensial gan Gyngor Gwynedd o'r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

2. Ymrwymo £155,000 yn ychwanegol i'r cynllun Rhaglen Gwydnwch Cymunedol Gwynedd gan Gyngor Gwynedd o'r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

3. Ymrwymo £71,504 yn ychwanegol i'r cynllun Bang Bangor – Olion gan Cwmni'r Frân Wen o'r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

**RHESWM DROS YR ANGEN AM Y PENDERFYNIAD –**

Gweler yr Adroddiad Swyddog atodedig

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD-**

Ymgynghorwyd â –
Swyddogion Statudol Cyngor Gwynedd

Adroddir ar ganlyniadau'r ymgynghoriadau yn yr adroddiad atodedig

**TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD UNIGOL O GABINET CYNGOR GWYNEDD ADRODDIAD SWYDDOG**

| | |
|---|---|
| Enw a theitl yr Aelod Cabinet: | Y Cynghorydd Nia Jeffreys<br>Dirprwy Arweinydd ac Aelod Cabinet dros Economi |
| Enw a theitl awdur yr adroddiad: | Siwan Lisa Evans<br>Rheolwr Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd |
| Dyddiad y cymerwyd y penderfyniad : | 25 Tachwedd 2024 |
| Llofnod yr Aelod Cabinet : |  |

**PWNC:  Ymrwymo arian o gyllideb ‘Lluosi’ Cronfa Ffyniant Gyffredin y DG**

**Argymhellion ar gyfer y Penderfyniad:**

1. Ymrwymo £35,225 yn ychwanegol i’r cynllun *Helpu Pobl Gwynedd Gyflawni Potensial* gan Gyngor Gwynedd o’r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

2. Ymrwymo £155,000 yn ychwanegol i’r cynllun *Rhaglen Gwydnwch Cymunedol Gwynedd* gan Gyngor Gwynedd o’r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

3. Ymrwymo £71,504 yn ychwanegol i’r cynllun *Bang Bangor – Olion* gan Cwmni’r Frân Wen o’r gyllideb Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

**Rhesymau dros yr angen am y Penderfyniad:**

Cytunodd Cabinet 24 Ionawr 2023 (Eitem 6) i drefn ar gyfer ymrwymo arian o ddyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

Sefydlwyd Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin: Gwynedd i ymrwymo’r arian, gyda’u hargymhellion i’w cadarnhau drwy law Taflen Penderfyniad Aelod Cabinet gan yr Arweinydd (neu’r Cabinet pe ddymunir hynny gan y Panel).

**Rhesymeg a chyfiawnhad dros gyrraedd y Penderfyniad:**

Mae Lluosi (Multiply) yn is-thema o fewn Blaenoriaeth Buddsoddi ‘Pobl a Sgiliau’ yng Nghronfa Ffyniant Gyffredin y DG.  Bwriad Lluosi yw cefnogi oedolion i wella eu sgiliau

rhifedd. Lluosi yw'r unig ran o'r Gronfa gyda chyllideb sydd wedi ei gwarchod - mae **£2,942,620** wedi ei glustnodi ar gyfer Lluosi o fewn dyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG.

Mae **£1,922,563** o'r arian ar gyfer Lluosi eisoes wedi ei ymrwymo i gefnogi gweithgaredd yng Ngwynedd. Gweler papurau
Cabinet 20 Gorffennaf 2023 (Eitem 5)
Taflen Penderfyniad Aelod Unigol o Gabinet Cyngor Gwynedd (30 Ionawr 2024)

Taflen Penderfyniad Aelod Unigol o Gabinet Cyngor Gwynedd (5 Mawrth 2024)

Taflen Penderfyniad Aelod Unigol o Gabinet Cyngor Gwynedd (8 Awst 2024)

Taflen Penderfyniad Aelod Unigol o Gabinet Cyngor Gwynedd (2 Hydref 2024)

Mae **£1,020,057** o'r arian Lluosi yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG yn weddill.

Derbyniwyd tri chais o'r newydd am arian i ddarparu gweithgareddau sy'n gymwys i dderbyn arian Lluosi:

i. Cais am £35,225 yn ychwanegol i'r cynllun *Helpu Pobl Gwynedd Gyflawni Potensial* gan Cyngor Gwynedd
ii. Cais am £155,000 yn ychwanegol i'r cynllun *Rhaglen Gwydnwch Cymunedol Gwynedd* gan Cyngor Gwynedd
iii. Cais am £71,504 yn ychwanegol i'r cynllun *Bang Bangor – Olion* gan Cwmni'r Frân Wen

Mae Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin:Gwynedd wedi argymell ymrwymo cyfanswm o £261,729 o'r arian Lluosi sydd yn weddill yn nyraniad Gwynedd o Gronfa Ffyniant Gyffredin y DG i'r cynlluniau uchod.

Mae'r Daflen Penderfyniad yma yn adlewyrchu argymhellion y Panel.

**Cofnod o unrhyw fuddiant a ddatganwyd gan unrhyw Aelod Cabinet yr ymgynghorwyd â hwy ac unrhyw oddefeb gan Bwyllgor Safonau:**

Dim

**Unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd cyn gwneud y Penderfyniad:**

Prif Swyddog Cyllid:

*"Mae amser cyfyngedig i ddefnyddio'r ffynhonnell arian yma, a gan fod y cynlluniau yn gymwys ar ei gyfer, rwyf yn cefnogi'r penderfyniad a geisir."*

Swyddog Monitro:

*"Rwy'n fodlon gyda phriodoldeb y trosglwyddiad sydd yn deillio o ymgynghoriad gyda'r Panel Cronfa Ffyniant Gyffredin."*

Aelod(au) Lleol:

Ddim yn fater lleol